



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad astudiaeth achos o brosiectau awdurdodau lleol i leihau effaith diwygio Budd-daliadau Tai

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 27/2013

Er mwyn lliniaru effaith y newidiadau i'r Budd-dal Tai, rhwng y ddwy flynedd o Ebrill 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru £1.4 miliwn i awdurdodau lleol, drwy ei rhaglen grantiau atal digartrefedd i gyflwyno rhaglen o waith cymeradwy gyda landlordiaid a thenantiaid sydd â'r nod o atal digartrefedd o ganlyniad i newidiadau i'r gyfundrefn Budd-dal Tai¹. Comisiynwyd Shelter Cymru a Phrifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i werthuso chwe o'r prosiectau awdurdod lleol hyn yn annibynnol.

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys gwerthusiad proses ac effaith o chwe phrosiect astudiaeth achos ardal: (i) Blaenau Gwent; (ii) ymagwedd bartneriaeth rhwng Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam; (iii) Caerffili; (iv) Sir Gaerfyrddin; (v) Abertawe; (vi) Rhondda Cynon Taf.

Dulliau

1. Defnyddiodd y Tîm Ymchwil ddulliau meintiol ac ansoddol. Roedd y fethodoleg gwerthuso ansoddol yn amrywio ar gyfer pob un o ardaloedd yr astudiaethau achos. Fodd bynnag, roedd pob methodoleg yn cynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda rheolwyr prosiect a staff, sefydliadau partner ehangach a defnyddwyr gwasanaeth.
2. Roedd yr ymagwedd feintiol yn cynnwys dadansoddi gwybodaeth eilaidd (ystadegau, dogfennau polisi ac ati) gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol unigol, yn ogystal â defnyddio data safonedig a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru.

Y Prif Ganfyddiadau:

3. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau cyffredinol ar draws pob un o'r astudiaethau achos. Gweler yr adroddiad llawn, sydd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, i gael gwybodaeth fanwl am yr ymagwedd, effeithiolrwydd ac effaith pob prosiect astudiaeth achos.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



¹Ar 13 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd y câi £750,000 ychwanegol ei ddarparu er mwyn i awdurdodau lleol barhau â'r gwaith hwn rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014.

5. Roedd yr ymagwedd brosiect yn tueddu i fod yn naill ai (i) cyngor wyneb-yn-wyneb a rôl dal achosion; (ii) rôl lledaenu gwybodaeth neu (iii) ymagwedd cartrefi gwag. Serch hynny, ymgorfforodd y rhan fwyaf o'r prosiectau ddwy neu fwy o'r ymagweddau.
6. Mae pob prosiect wedi dangos tystiolaeth eu bod wedi esblygu dros gyfnod y prosiect. Mae hyn oherwydd bod gweithwyr prosiect yn mireinio eu dulliau yn ogystal ag aros yn hyblyg er mwyn bodloni anghenion allanol cyfnewidiol.
7. Er gwaethaf y gwahaniaethau rhwng y prosiectau, roedd nifer o themâu ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos o ran hwyluswyr a rhwystrau at broses ac effaith y prosiect. Roedd yr hwyluswyr yn cynnwys: (i) gwneud gwaith rhagweithiol paratoadol cyn i'r prosiect gychwyn; (ii) recriwtio staff gwybodus a phrofiadol i swyddi'r prosiect; (iii) mabwysiadu ymagweddau partneriaeth at y prosiect; (iv) cynnwys rôl cyswllt wyneb-yn-wyneb y gall rhai prosiectau ei chynnig i denantiaid.
8. Roedd y rhwystrau'n cynnwys: (i) peidio â mynd i'r afael â hyd a lled y newidiadau; (ii) gwaith yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl; (iii) prinder llety priodol ar gael a phwyslais ar atebion byrdymor; (iv) diffyg ymgysylltu â landlordiaid fel rhan o'r prosiectau; (v) diffyg ymgysylltu â thenantiaid fel rhan o'r prosiectau; (vi) diffyg adnodd er mwyn caniatáu targedu pob tenant y mae'r newid yn effeithio arnynt; (vii) rhywfaint o dystiolaeth bod angen cyfathrebu gwell o ran y prosiect a'i rôl â sefydliadau partner er mwyn dileu dyblygu rolau.
9. Dangosodd pob un o'r ardaloedd astudiaeth achos dystiolaeth bod y prosiectau'n bodloni eu nod (neu o leiaf yn gweithio tuag at wneud hynny) o atal digartrefedd oherwydd newidiadau i'r Budd-dal Tai. Fodd bynnag, roedd oedi o ran rhoi nifer o brosiectau ar waith a phenodi staff allweddol ac mewn rhai achosion, dim ond yn ddiweddarach yn y cyfnod gwerthuso y dechreuodd

- canlyniadau eglur ddod i'r amlwg.
10. Dangosodd y prosiectau astudiaeth achos nifer o gyffelybiaethau o ran ffordd o atal digartrefedd. Prif elfennau llwyddiant oedd: (i) gwaith rhagweithiol cynnar ac adnabod tenantiaid sy'n agored i niwed fel bod modd chwilio am atebion cyn gynted â phosibl; a/neu (ii) y cynnydd yn y stoc tai fforddiadwy gan fod landlordiaid yn cytuno ar renti is neu roi defnydd newydd i gartrefi gwag.
11. Mae llwyddiant prosiect wedi'i gyflawni drwy gydweithio effeithiol yn yr awdurdod lleol, yn enwedig â thimau Budd-dal Tai a hefyd â rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys rhai landlordiaid a thenantiaid.
12. Yr agwedd fwyaf gwerthfawr ar rolau'r prosiect oedd gallu'r swydd i 'fynd gam ymhellach' nag y byddai adnoddau a phwysau'n ei ganiatáu, heb y grant.
13. Mae sefydliadau partner yn teimlo yn hytrach na chynghori tenantiaid yn unig, bod yno rywun y gallant gyfeirio'r cleient ato am gymorth ychwanegol. Felly, y gred gyffredinol yw y gall y gweithwyr prosiect ddod â gwerth ychwanegol i'r hyn y gall gweithwyr awdurdodau lleol sy'n bodoli eisoes ei wneud ar hyn o bryd.
14. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn awgrymu na fydd landlordiaid yn gostwng eu rhenti yn unol â chyfradd y Lwfans Tai Lleol er gwaethaf y prosiectau. Er hynny, mae'n bwysig cofio bod rhai landlordiaid wedi gostwng rhenti drwy'r prosiect a thrwy drafod gyda landlordiaid a thenantiaid yn uniongyrchol.
15. Awgrymodd y dystiolaeth fod diffyg ymwybyddiaeth ymhlith tenantiaid o'r newidiadau i'r Budd-dal Tai a sut byddant yn effeithio arnynt o ganlyniad.
16. Mae i ba raddau yr oeddem yn gallu gwerthuso canlyniadau wedi'i lesteirio gan y gallu i gasglu a chymharu data

mesuradwy ar draws y prosiectau gwahanol, er bod ymarfer monitro parhaus Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo yn hyn o beth.

17. Awgrymodd y dystiolaeth fod y prosiectau astudiaeth achos, sydd wedi amrywio cryn dipyn o ran eu nodau, wedi bod yn gost effeithiol fel rhan o strategaethau ehangach i atal digartrefedd a chynnig ffynonellau ychwanegol o lety fforddiadwy.

18. Yn gyffredinol, mae'r prosiectau wedi cynorthwyo tenantiaid fel a ganlyn: (i) cymorth ymarferol i barhau â'u tenantiaeth neu ddod o hyd i ddewis arall a (ii) thawelwch meddwl mewn cyfnod o newid a chynnwrf sy'n peri pryder.

19. Yn gyffredinol, mae'r prosiectau wedi cynorthwyo rhanddeiliaid fel a ganlyn: (i) lleihau'r baich ar adrannau awdurdodau lleol eraill fel dewisiadau tai a digartrefedd; (ii) mae rhai landlordiaid wedi cael cymorth i roi defnydd newydd i'w cartrefi gwag neu wedi cael cymorth i

rentu (neu barhau i rentu) i denantiaid sy'n derbyn budd-daliadau a (iii) gwybodaeth gynyddol am newidiadau i fudd-daliadau a'r effaith bosibl gan fod gweithwyr prosiect yn lledaenu gwybodaeth.

20. Mae modd manteisio i'r eithaf ar lwyddiant parhaus y prosiectau drwy ategu a chysylltu â beth arall y mae'r awdurdod lleol a'r sefydliadau partner ehangach hefyd yn ei wneud i liniaru effaith y newidiadau i'r Budd-dal Tai. Bydd hyn yn dileu dyblygu a sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.

Symud ymlaen

21. Er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n fwyaf priodol i'r ardal, dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod y gwaith canlynol yn cael ei wneud yn lleol fel y gall y swyddi ategu'r rolau presennol hyn yn hytrach na'u dyblygu.

22. Mae'n hollbwysig bod yr awdurdod lleol yn creu map gwasanaeth lleol yn yr ardal er mwyn dirnad yr hyn y mae

adrannau awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol eraill, landlordiaid preifat a rhanddeiliaid ehangach eisoes yn ei wneud yn eu rolau i helpu lliniaru effaith y newidiadau i'r Budd-dal Tai. Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod rolau'n cael eu dyblygu ar hyn o bryd mewn rhai awdurdodau lleol ac nad dyma'r defnydd gorau o adnoddau prin.

23. Roedd tystiolaeth bod adrannau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol eraill hefyd yn gwneud gwaith atal digartrefedd (o ganlyniad i'r newidiadau i'r Budd-dal Tai). Mae angen cydweithio a chyfathrebu pellach er mwyn cysylltu â gwaith arall sy'n cael ei wneud yn lleol.

24. Gall cydweithio agos â'r Adran Budd-dal Tai arwain at ganfod yn gynnar tenantiaid y mae newidiadau i'r Budd-dal Tai yn effeithio arnynt.

25. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd amser a chost y rolau, mae ymagwedd genedlaethol at rannu

gwybodaeth am newidiadau i Fudd-dal Tai drwy newyddlen generig (y mae modd ei diwygio a'i theilwra ar gyfer pob awdurdod lleol) a lledaenu arfer da rhwng ardaloedd yn debygol o wella perfformiad y prosiectau.

26. Er bod monitro data safonedig ar draws prosiectau awdurdodau lleol drwy Grant Digartrefedd Llywodraeth Cymru yn ddatblygiad gwerthfawr diweddar, o ran ceisio mesur canlyniadau prosiectau unigol, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd rhoi trefniadau ar waith i gytuno ar wybodaeth benodol am berfformiad prosiectau (er enghraifft, nifer a phroffil aelwydydd a gynorthwyr gan brosiect penodol, costau llety dros dro ar gyfer aelwyd ddigartref statudol, nifer y tenantiaethau a gynhelir am fwy na chyfnod penodol, arbed costau (fesul achos atal digartrefedd ac ati) ar ddechrau prosiect, y byddai disgwyl i sefydliadau fonitro ac adrodd ar gynnydd gyferbyn ag ef.

27. Mae angen amlwg am dystiolaeth well a mwy cyson o ran costau a buddion cynlluniau gwahanol (a'r costau lleol sy'n gysylltiedig â ffurfiau gwahanol ar lety dros dro), a fyddai'n helpu i greu darlun ehangach o'r arbedion cost y gellid eu cyflawni drwy gynlluniau gwahanol a chaniatáu cymharu costau a buddion (a'u meincnodi, o bosibl) ledled awdurdodau lleol yng Nghymru.
28. Mae angen hefyd i bob awdurdod lleol feddu ar unigolyn gwybodus i raeadru gwybodaeth am newidiadau i'r Budd-dal Tai, rhannu arfer da a helpu i gydlynu, lledaenu a hyfforddi rhanddeiliaid eraill a staff rheng flaen.
29. Oherwydd pwysigrwydd ymgysylltu â landlordiaid, mae angen meddu ar unigolyn yn yr awdurdod lleol sy'n ymgysylltu â landlordiaid yn uniongyrchol – megis Swyddog Cymorth Tenantiaethau neu Swyddog Cyswllt Landlordiaid. Mae angen adeiladu ar y cydberthynasau presennol â landlordiaid a chwilio am ffyrdd o ysgogi landlordiaid preifat i rentu gyda chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ac ymgysylltu â'r prosiectau. Y prif faterion sy'n peri pryder i landlordiaid yw rhenti isel a thaliadau uniongyrchol i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau.
30. Yn ogystal â manteisio ar y stoc rhentu preifat gymaint â phosibl, mae'n hollbwysig defnyddio ffyrdd eraill o gynyddu'r stoc tai fforddiadwy – sef rhoi defnydd newydd i gartrefi gwag.
31. Mae'n hollbwysig bod elfen o denantiaid wyneb-yn-wyneb yn gweithio ym mhob awdurdod. Gallai hyn gynnwys swydd prosiect penodol, staff rheng flaen awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol eraill neu rhanddeiliaid ehangach.
32. Mae angen chwilio am enghreifftiau o arfer da a ffyrdd arloesol o ymgysylltu â thenantiaid. Gweithio mewn partneriaeth ar draws timau yn yr awdurdod lleol a hefyd gyda sefydliadau partner sydd orau, ac o ystyried maint y

newidiadau, dyma'r unig ffordd
o sicrhau bod pob tenant yn
cael y cyfle i gael cymorth.

© Hawlfraint y Goron 2013

33. Mae'n debygol y bydd nifer y
gwrandawiadau tribiwnlys ar
gyfer tenantiaid yn cynyddu
oherwydd materion sy'n deillio
o newidiadau i Fudd-dal Tai ac
efallai na fydd gan awdurdodau
lleol staff ar gael gyda'r sgiliau
cywir i wneud gwaith tribiwnlys.
Mae'r mater hwn yn rhywbeth y
dylai awdurdodau lleol baratoi
ar ei gyfer a'i ystyried mewn
perthynas â swyddi prosiect yn
y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch
â'r canlynol:

Enw: Sara James

Adran: Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8562

Ffacs: (01685) 728006

E-bost:

sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth

Cymru, 2013

ISBN: 978-0-7504-9285-0